Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dŷ Bronllys

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Thŷ Bronllys

Mae Tŷ Bronllys yn ysgol annibynnol arbennig sydd wedi'i lleoli ar gyrion Aberhonddu. Mae'r ysgol yn darparu addysg a gofal preswyl ar gyfer hyd at 13 o ddisgyblion rhwng 8 ac 19 oed sydd â diagnosis o anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA). Agorwyd yr ysgol yn 2007, ac mae'n un o bum ysgol a berchnogir gan Orbis Education and Care Group yng Nghymru a Lloegr.

Mae 11 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn fechgyn ac mae pob un ohonynt wedi eu lleoli gan awdurdodau lleol o Gymru. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae llawer o ddisgyblion yn preswylio yn y cartref cofrestredig i blant ar y safle. Saesneg yw mamiaith bron pob un o'r disgyblion.

Mae'r pennaeth addysg wedi bod yn ei swydd er mis Mai 2017. Mae cyfarwyddwr gwasanaethau plant yn goruchwylio'r ddarpariaeth addysg a gofal ar draws ysgolion y cwmni. Mae dau o athrawon dosbarth a saith o gynorthwywyr cymorth dysgu amser llawn. Cefnogir y tîm addysg gan dîm clinigol, gan gynnwys therapydd lleferydd ac iaith, arbenigwr ymddygiad, therapydd galwedigaethol a thechnegwyr clinigol.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf o'r ysgol ym mis Mai 2018.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae gan ddisgyblion yn Nhŷ Bronllys anawsterau dysgu sylweddol yn deillio o'u hawtistiaeth a'u hanawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu. O ran yr anghenion cymhleth hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn meysydd blaenoriaeth fel gwella eu lles, datblygu medrau cymdeithasol, ac o ran bod yn fwy annibynnol yn eu bywydau bob dydd.

Mewn gwersi a sesiynau wedi'u hamserlennu, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i anogaeth ac ymyriadau medrus y staff. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnal eu hymgysylltiad mewn gweithgareddau yn llwyddiannus ac yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu nodau dysgu unigol.

Mae staff yn gwybod yn dda beth yw anghenion a galluoedd disgyblion. Maent yn rhannu dealltwriaeth drylwyr o'r ffyrdd mwyaf priodol o gyflawni canlyniad cadarnhaol ar gyfer pob disgybl. Mae'r wybodaeth hon yn eu helpu i reoli ymddygiad disgyblion yn bwyllog ac yn gyson. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwella eu dealltwriaeth o'u hemosiynau a'u hymddygiadau eu hunain.

Mae'r ysgol wrthi'n gwneud gwelliannau buddiol i adeiladau a thir yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'r gwelliannau hyn yn mynd rhagddynt yn dda. Mae'r cyfleusterau newydd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu annibyniaeth a medrau ymarferol disgyblion, er enghraifft trwy siop a chegin medrau bywyd ar y safle.

Mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 a arolygwyd yn ystod yr ymweliad hwn.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae'r ysgol wedi dechrau rhoi camau gweithredu buddiol ar waith i fynd i'r afael â'r argymhellion adeg yr arolygiad craidd. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae llawer o'r gwaith hwn ac nid yw wedi cael digon o effaith ar fynd i'r afael â meysydd allweddol i'w gwella. Felly, mae'r argymhellion o'r arolygiad craidd yn parhau.

Mae gan y cwmni hanes cryf o wneud gwelliannau i'r ysgol. Mae ganddo brosesau cadarn ar waith i sicrhau ansawdd ei waith, a'i werthuso. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i adolygu cynnydd disgyblion ac ansawdd yr addysgu trwy arsylwadau gwersi a chraffu ar waith. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o safbwyntiau rhanddeiliaid i lywio hunanwerthuso. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut bydd y prosesau hyn yn llywio blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Yn ychwanegol, nid yw camau gweithredu i gefnogi'r blaenoriaethau hyn yn ddigon manwl gywir. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn nodi'n glir yr hyn y mae angen i'r ysgol ei wneud i gyflawni ei nodau.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1 Ddatblygu ystod o brofiadau dysgu i fodloni anghenion disgyblion sy'n llai goddefgar o amgylchedd yr ystafell ddosbarth**

**A2 Sicrhau bod diben yr asesu yn glir ac yn nodi'n fanwl gywir yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud er mwyn gwneud cynnydd**

**A3 Darparu cyfleoedd i staff addysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol sydd â ffocws clir ar addysgu a dysgu**

**A4 Sicrhau bod canlyniadau prosesau hunanwerthuso yn cael eu defnyddio'n drylwyr i lywio cynllunio gwelliant**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Datblygu ystod o brofiadau dysgu i fodloni anghenion disgyblion sy'n llai goddefgar o amgylchedd yr ystafell ddosbarth**

Mae'r ysgol wedi cymryd camau addas i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mae athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i gynllunio gwersi sy'n hyblyg o ran strwythur ac y gellir eu haddasu yn unol â gwahanol amgylcheddau o gwmpas y safle. Mae hyn yn galluogi staff addysgu i ymateb yn gyflym i anghenion disgyblion unigol trwy gydol y dydd, er enghraifft trwy fynd â'r dysgu at ddisgyblion sy'n mynegi ffafriaeth i ddysgu mewn lleoliad heblaw'r ystafell ddosbarth ddynodedig.

Mae'r ysgol wedi dechrau ymestyn ystod y gweithgareddau sydd ar gael o fewn y cwricwlwm cynlluniedig. Er enghraifft, mae wedi cyflwyno siop farbwr ar y safle. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu profiad o fedrau gwaith, fel glanhau a sgubo lloriau. Mae disgyblion yn elwa ymhellach ar y fenter dra ystyriol hon trwy eu helpu i gynyddu eu goddefgarwch o gael eu gwallt eu hunain wedi'i dorri mewn lleoliad realistig.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno byw yn y gwyllt fel rhan o'r amserlen, sy'n galluogi disgyblion i brofi gweithgareddau diddorol fel cynnau tân, defnyddio offer ac adeiladu lloches. Fodd bynnag, at ei gilydd, megis dechrau datblygu y mae'r mentrau hyn. Yn benodol, nid yw'r ysgol wedi datblygu'n llawn ei rhesymeg ar gyfer y gweithgareddau hyn na sut mae'n bwriadu cofnodi'r cynnydd a wna disgyblion trwyddynt mewn perthynas â'u nodau dysgu cynradd.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod diben asesu yn glir ac yn nodi'n fanwl gywir yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud er mwyn gwneud cynnydd**

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi adolygu ei threfniadau ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion i sicrhau bod y rhain yn cyfeirio at un fframwaith asesu. Mae hyn wedi egluro ymagwedd yr ysgol at asesu ac wedi gwella dealltwriaeth yr ysgol o'r cynnydd a wna disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno wythnos asesu ar ddiwedd pob tymor. Mae hyn yn rhoi cyfle gwerthfawr i ddisgyblion asesu eu cynnydd eu hunain a chyfrannu at osod eu targedau ar gyfer y tymor nesaf. Mae dogfennau cynllunio gwersi yn cynnwys cyfleoedd buddiol i athrawon gofnodi cynnydd disgyblion yn unol â'u hamcanion dysgu ar gyfer pob gwers. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod athrawon yn cofnodi'n effeithiol y camau cynnydd bach a wna disgyblion ym mhob gwers i gynorthwyo eu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae gan athrawon ddealltwriaeth gref o'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei ddysgu o ran eu prif anghenion a'u nodau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae ansawdd y targedau ar gynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn rhy amrywiol. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw targedau a meini prawf llwyddiant yn ddigon pwrpasol ac nid ydynt yn cysylltu'n ddigon da â chamau nesaf a nodau tymor hwy disgyblion.

**Argymhelliad 3: Darparu cyfleoedd i staff addysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol sydd â ffocws clir ar addysgu a dysgu**

At ei gilydd, mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i'r argymhelliad hwn. Ceir dealltwriaeth glir ar draws yr ysgol o sut bydd y camau gweithredu cychwynnol yn cael eu datblygu a'u gyrru ymlaen dros gyfnod.

Mae'r ysgol wedi gwella'i hymgysylltiad ag amrywiaeth briodol o ddarparwyr i ffurfio partneriaethau cefnogol cryf. Mae'r partneriaethau hyn yn caniatáu cyfleoedd defnyddiol i staff arsylwi addysgu a dysgu mewn lleoliadau, fel darpariaeth y blynyddoedd cynnar a darpariaeth coleg. O ganlyniad, mae athrawon wedi cyflwyno syniadau newydd yn eu haddysgu. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd gwell o ddysgu mewn lleoliadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth a mentrau newydd i gynnal ymgysylltiad â dysgwyr.

Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran coladu'r cynllun datblygiad proffesiynol ysgol gyfan, ac mae'r ysgol yn dechrau rhoi dull strategol o ddatblygiad proffesiynol ar waith. Nid yw'r medrau newydd a enillwyd gan athrawon wedi cael eu rhannu ar draws yr ysgol eto. Fodd bynnag, mae gan yr ysgol gynlluniau ar waith i sicrhau bod meysydd hyfforddiant pwysig, fel arwyddo, yn flaenoriaeth ar gyfer pob un o'r staff.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

***Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

***Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

***Safon 6: Darparu gwybodaeth***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/07/2019